Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

# Newyddion Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN)

RHIFYN 4: Chwefror - Ebrill 2024

## Croeso i bedwerydd rhifyn ein cylchlythyr chwarterol.

**Byddwch yn barod i bori trwy'r wybodaeth diweddaraf, safbwyntiau craff, a newyddion cyffrous yn syth o galon ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan!**

Mae ein cenhadaeth yn syml: sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y gwaith anhygoel sy'n digwydd yn ein cymuned. O fentrau arloesol i fuddugoliaethau lleol a digwyddiadau sydd ar y gweill, y cylchlythyr hwn yw'r unig ffynhonnell sydd ei hangen arnoch er mwyn cadw mewn cysylltiad.



Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth a'ch cyfranogiad parhaus yn ein cymuned. Wrth i chi ddarllen y rhifyn hwn, rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo ei fod yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig. Diolch am fod yn rhan o'n taith!

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen NCN, ewch i Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) - BwrddIechydPrifysgol Aneurin Bevan (nhs.wales), neu anfonwch e-bost at: abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk

### Cynnwys

Tudalen 1
Cyflwyniad
Tudalen 2
NCN Blaenau Gwent
Tudalen 3
NCN Caerffili
Tudalen 4
NCN Sir Fynwy
Tudalen 5
NCN Casnewydd
Tudalen 6
NCN Torfaen
Tudalen 7
Cydweithrediaethau Proffesiynol
Tudalen 8
Diweddariad Cyfathrebu ac Ymgysylltu yr NCN

### Beth yw Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN)?

Mae NCNs yn ceisio uno gwasanaethu iechyd a gofal lleol o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, yn nodweddiadol mae'n gwasanaethu poblogaethau sy'n amrywio o 40,000 i 60,000.
Mae'n cynnwys Meddyon Teulu, Ymarferwyr Deintyddol ac Optometrig, Fferyllwyr, Nyrsio Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP), ac arbenigwyr Gofal Cymdeithasol, ac mae NCNs yn defnyddio cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd amrywiol.

Mae gweithredu o fewn NCN yn sicrhau gwell cydlyniant o ran gofal, gan sicrhau y gellir asesu anghenion poblogaeth, nodi blaenoriaethau gwella gwasanaethau, a datblygu atebion lleol wedi'u teilwra er mwyn hyrwyddo lles unigolion a chymunedau.

# Blaenau Gwent

## Digwyddiad Ymgysylltu yng Nghanolfan Iechyd a Lles Bevan



Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu i groesawu trigolion lleol Tredegar ac aelodau'r Cyngor Tref i edrych o gwmpas y cyfleuster newydd a thrafod cynlluniau ar gyfer datblygu pellach gwasanaethau a fydd ar gael yno.
Cychwynnodd y grŵp canu gwirfoddol, 'The Goldies' y gweithgareddau lles acroedd te a pice ar y maen ar gael cyn y daith a daethom â sesiwn y prynhawn i ben gyda grŵp o gantorion ifanc o Kids R US.
Cafwyd sesiwn holi ac ateb gyda'r nos hefyd a thrafodwyd y camau nesaf o ran y datblygiad.
Cynhaliwyd Marchnad hefyd gyda stondinau gan wasanaethau partner a gwirfoddolwyr er mwyn darparu gwybodaeth am wasanaethau lles lleol, gan gynnwys, GAVO, CAB, EEP, Hamdden Aneurin, Ymwelwyr Iechyd a'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

## Ymweliad cadarnhaol â wardiau YAB Ebwy a Sirhowy

Ymwelodd Llais, y corff statudol annibynnol sy'n cynrychioli pobl Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ag Ysbyty Aneurin Bevan (YAB) ar 20 Tachwedd 2023, a chafwyd adborth cadarnhaol am yr ysbyty a'r gofal a dderbyniwyd.
Yn ystod yr ymweliad, bu gwirfoddolwyr Llais yn rhyngweithio â chleifion ar wardiau Sirhowy a Glyn Ebwy, gan nodi eu hadborth. Mynegodd y mwyafrif eu bod yn fodlon gyda'u gofal, a chafwyd sylwadau megis "Staff yn gwrtais a phrofiad cyfforddus" a "Mae gofal wedi bod yn wych. "
Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi cwblhau a dychwelyd cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion Llais. Maent hefyd wedi symud ymlaen gyda'r gwaith o recriwtio cydlynydd gweithgareddau ar y wardiau a fydd yn rhaglen strwythuredig o weithgareddau er mwyn cefnogi adsefydlu a lles cleifion ac edrychwn ymlaen at benodi i'r rôl hon yn y dyfodol agos.

## Cyfeillion Lles Pobl Ifanc — Prosiect Peilot



Mae partneriaeth wedi'i sefydlu rhwng Ysgol Sylfaenol Brynmawr a'r Rhwydwaith Lles Integredig (IWN) ar gyfer prosiect ymgysylltu cymunedol a gwybodaeth ar les. Mae myfyrwyr Blwyddyn 9 yn cael eu hyfforddi i fod yn gyfeillion lles, gan gasglu mewnwelediadau gan deulu a ffrindiau er mwyn siapio'r hyn y mae'r dref yn ei gynnig o ran lles. Caiff eu canfyddiadau eu dogfennu a'u trafod gyda thîm IWN, sy'n rhoi adborth i bartneriaid fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Mae'r tîm IWN yn cwrdd â'r cyfeillion lles hyn yn rheolaidd i gasglu gwybodaeth, trafod canfyddiadau, a rhoi adborth i bartneriaid perthnasol, fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Mae'r prosiect yn hwyluso rhannu gwybodaeth ymysg ieuenctid a'u teuluoedd, ac mae cynlluniau i gynnwys partneriaid yn y gwasanaeth ieuenctid ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Er bod yr IWN yn arwain y cynllun peilot, eu nod yw grymuso ieuenctid i gynnig syniadau a phrosiectau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.
Am fwy o fanylion am y fenter hon, cysylltwch â kathryn.cross@wales.nhs.uk.

# Caerffili

## Cydweithio Lleol yn Blodeuo Canolfan Iechyd Trethomas



Mae tîm Caerffili, mewn cydweithrediad â Cadw Cymru'n Daclus, yn gwella lles ymwelwyr â Chanolfan Iechyd Tretomas tra'n diogelu coed ffrwythau hynafol Cymru a'u hecosystemau.

Dan arweiniad Mari Burland, Swyddog Cymorth Rhwydwaith a Gwasanaethau Cymunedol Caerffili, cynhaliwyd digwyddiad plannu coed ar Fawrth 19eg. Ymunodd Cynghorwyr Lleol a myfyrwyr o Ysgol Gynradd Ty'n y Wern i blannu perllan fach sy'n cynnwys 12 math o goed ffrwythau lleol.
Darparodd Carolyn Joyce, Arweinydd Cydweithrediad Deintyddol Caerffili, a'i chydweithiwr Kylie Bright setiau brws dannedd, sticeri, a gwybodaeth iechyd y geg i blant a fynchodd y digwyddiad.
Mae'r fenter yn cyd-fynd ag ymrwymiad Caerffili i'r Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan anelu at wella ansawdd aer er mwyn gwella canlyniadau iechyd.
Mae Canolfan Iechyd TreThomas yn cynnig gwasanaethau gofal amrywiol, gan gynnwys gwasanaethau anadlol, cardiaidd, atal cwympiadau, podiatreg, rheoli diabetes, cwnsela, a mwy.

## Community Wellbeing Connectors

Caerphilly NCNs have provided funding for four additional Community Wellbeing Connectors to bolster the Caerphilly Cares Team in partnership with Caerphilly Local Authority.
These Connectors are now in their roles and are assigned to various GP practices across the borough. They aim to provide personalised support and guidance to adults and their families, fostering wellbeing and independence within their communities to combat social isolation.
Working closely with residents, the Community Wellbeing Connectors will identify tailored solutions to complex needs, building on existing relationships while fostering a fresh approach to community resilience.

## Y Dicky Tickers

Mae rhaglen Lles Natur (Presgripsiynu Gwyrdd) ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a gefnogir gan dîm IWN, tîm Ardal Caerffili, ac NCNs, wedi gweld cynnydd sylweddol dros y deng mis diwethaf.



Mewn cydweithrediad ag Adsefydlu'r Ysgyfaint ac Adsefydlu Niwrolegol, gofynnod y tîm Adsefydlu Cardiaidd am ein cymorth i sefydlu grŵp cymorth cymheiriaid ar Fethiant y Galon yn YMCA Bargod. Yn dilyn sesiynau llawn gwybodaeth gyda'r tîm, y rheolwr, a'r darpar aelodau, ffurfiwyd y grŵp 'Dicky Tickers'. Bydd y fenter hon yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas Brydeinig Methiant y Galon.
Mae cefnogaeth barhaus gan yr IWN wedi galluogi'r grŵp i drefnu digwyddiad gwybodaeth agored yn YMCA Bargod ar Fai 1af er mwyn recriwtio aelodau newydd. Mae hyn yn cyd-fynd ag wythnos Ymwybyddiaeth Methiant y Galon. Priodolir y llwyddiant hwn i ymdrechion cydweithredol yr IWN, y rhaglen Presgripsiynu Natur, Hayley Rose (Cardiac Adhab), a Jo Price (YMCA Bargod). Mae'n dangos partneriaeth effeithiol ar draws NCNs, Iechyd Cyhoeddus, a rhanddeiliaid cymunedol.

# Sir Fynwy

## NCN Sir Fynwy yn Arddangos Technoleg Gynorthwyol yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent



Mewn ymgais i feithrin annibyniaeth a gwella ansawdd bywyd cleifion, mae Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Sir Fynwy (NCN) wedi ymuno â Chyngor Sir Fynwy i ddadorchuddio dwy ystafell arddangos Technoleg Gynorthwyol arloesol yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent.

Mae technoleg gynorthwyol yn cynnwys ystod o offer fel agorwyr llenni a reolir gan lais a gosodiadau 'cartref clyfar', er mwyn mynd i'r afael â heriau fel nam ar y cof a chyfyngiadau symudedd. O gymhorthion cof i ddyfeisiau cyfathrebu, mae'r technolegau a arddangosir yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol, gan sicrhau cynhwysoldeb a hygyrchedd.

Mae mabwysiadu technoleg gynorthwyol yn gynnar a chyfarwyddo â hi yn hanfodol, yn enwedig i unigolion sydd â chyflyrau fel dementia. Mae cyflwyno'r offer hyn yn gynnar yn caniatáu i gleifion arfer a chael y budd mwyaf posibl. Yn ei dro bydd hyn yn hyrwyddo annibyniaeth ac ymreolaeth.

Mae'r system trefnu ymweliad â'r ystafelloedd bellach yn fyw a gellir dod o hyd iddi yn AssistiveTech Sir Fynwy - Sir Fynwy.

Bydd diwrnod agored yn cael ei gynnal ar y 4ydd Mehefin

## Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Sir Fynwy

Mae'r Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Ymarfer Corff (NERS) yn rhaglen atal a rheoli cyflwr cronig sy'n ceisio gwella iechyd a lles oedolion llonydd ac anweithgar sydd mewn perygl o ddatblygu neu sydd â chyflwr cronig ar hyn o bryd.

Mae'n cynnig rhaglen 16 wythnos o weithgarwch corfforol i unigolion a atgyfeiriwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol y GIG, gan ddefnyddio technegau newid ymddygiad er mwyn ymgorffori arferion gweithgarwch corfforol cadarnhaol.

Ar ôl iddynt gael eu cyfeirio, gwahoddir cleifion sy'n bodloni'r meini prawf i'w canolfan hamdden leol i gael asesiad cychwynnol gyda gweithiwr proffesiynol atgyfeirio ymarfer corff cymwys.

Byddant yn cael cynnig rhaglen ymarfer corff wedi'i theilwra, dan oruchwyliaeth am 16 wythnos a bydd eu cynnydd yn cael ei adolygu ar gerrig milltir allweddol.

## Caffi Cof yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent

Ar yr 21ain o Chwefror cynhaliwyd sesiynau cyntaf Caffi Cof Ysbyty Cymunedol Cas-gwent.



Cefnogwyd y Caffi Cof gan Gôr y Clwb Canu a oedd yn diddanu'r grŵp gyda pherfformiadau o ganeuon o'r 1940au hyd at gyfnod mwy diweddar.

Mae'r Caffi Cof yn lle rhyfeddol o groesawgar i unigolion ag unrhyw fath o ddementia, neu anhwylderau eraill ar yr ymennydd. Maent wedi'u cynllunio er mwyn cynnwys y partner gofal hefyd, er mwyn rhoi profiad a rennir.

Maent yn canolbwyntio ar wahanol agweddau er mwyn creu profiad unigryw, mwynhau cysylltiadau cerddoriaeth, canu a chynnal sgyrsiau anffurfiol i greu cyfeillgarwch newydd.

Roedd sawl gwen i'w gweld ar wynebau pobl ac wrth i'r côr gymysgu ag aelodau'r grŵp roedd yr ystafell yn fôr o gan a phawb yn cymryd rhan.

Cynhelir y sesiynau bob trydydd dydd Mercher o'r mis 11am-1pm.

# Casnewydd

## Gwynllyw i Ysbyty Brenhinol Gwent - Symud Wardiau

Yn ystod mis Chwefror 2024, cafodd wardiau cymunedol Ysbyty Gwynllyw eu hadleoli'n llwyddiannus i Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn sgil gwaith cydlynu a chymorth staff yn Gwynllyw, Tîm Ardal Casnewydd, Tîm Adnoddau Cymunedol, Gwasanaethau Porthorion a rhai o'r staff Gofal Sylfaenol a wnaeth eu hunain ar gael i helpu, roedd y symudiad wedi'i drefnu'n dda, gyda'r holl gleifion yn ymgartrefu'n dda yn eu ward newydd. Croesawyd pob claf i'w wardiau newydd gyda chymeradwyaeth a dathliadau gan nad hawdd oedd symud i rai o'r cleifion. Felly, diolch yn fawr i'r rhai a fu'n rhan o’r gwaith o helpu i wneud y symudiad yn llwyddiant. Hoffai Tîm Casnewydd hefyd ddiolch i Mason's Removals am wneud y symudiad yn brofiad pleserus. Roedd eu haelodau staff yn chwerthin a cellwair gyda ni trwy gydol yr amser wrth symud y llu o offer yr oedd angen eu symud.

## Mae Gofal yn seiliedig ar leoedd yn parhau i ffynnu ledled Casnewydd

Mae'r model gofal yn seiliedig ar leoedd yn cael ei gefnogi'n llawn gan yr holl bractisau a phartneriaid meddygon teulu ledled Casnewydd.

Mae MDTs yn galluogi dull mwy cyfannol a chyson o reoli gofal cleifion ac yn parhau i ddangos llwyddiant gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu ymyriadau ataliol ac addysg/offer i gleifion er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae'r partneriaid sy'n mynychu wedi pwysleisio bod y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y cleifion yn cael eu helpu trwy fod yn bresennol yn y cyfarfodydd a gallu trafod yr achos yn agored a rhoi'r gofal cywir i'r claf, ar yr adeg iawn, yn y lle iawn.

Adlewyrchir y llwyddiant parhaus gan yr adborth rhagorol a dderbyniwyd gan ein partneriaid:

Tîm Cyswllt Cyntaf Gwasanaethau Cymdeithasol: “Canfûm fod hon yn ffordd wych o greu cydlyniant rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, mae hyn yn gweithio'n dda iawn ac yn atal pobl rhag mynychu meddygfeydd pan mai gwasanaethau atal neu ofal a chymorth sydd eu hangen arnynt yn fwy na dim”.

## Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills - Digwyddiad Cymunedol, 8fed Mai 2024



Rydym yn cynnal digwyddiad ymgysylltu cymunedol ddydd Mercher 8fed Mai 2024 yn Hwb Cymunedol Ringland, i rannu gwybodaeth am ddatblygiad Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills. Bydd gwybodaeth am y datblygiad yn cael ei darparu gan Kier, Adran Teuluoedd a Therapïau BIPAB a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, GAVO, IWN am y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn yr adeilad newydd a bydd Newport City Homes a Lovell yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiad ehangach Ringland. Cynhelir y digwyddiad galw heibio rhwng 3.00pm a 6.00pm a bydd yn cael ei agor gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jane Mudd. Mae cylchlythyr diweddaraf Partneriaeth Ringland a Kier, sy’n cynnwys diweddariadau am Ganolfan Iechyd a Lles 19 Hills a datblygiad ehangach Ringland, ar gael i’w darllen ar ein gwefan: abuhb.nhs.wales/files/cylchlythyrau datblygu/

# Torfaen

## Ymarfer Corff i bobl dros 60 - Blaenafon

Mae Datblygu Chwaraeon Torfaen, mewn partneriaeth â Chyngor Tref Blaenafon, yn darparu dosbarthiadau wythnosol am ddim sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y rheiny sydd dros 60 oed ym Mlaenafon. Gall gweithgarwch rheolaidd ostwng eich risg o ddatblygu clefyd y galon, strôc, rhai canserau, iselder a dementia. Mae symud mwy yn helpu'ch sgiliau meddwl — megis datrys problemau, gwneud penderfyniadau a chofio ffeithiau a geiriau. Gall bod yn actif leihau poenau, eich helpu i aros yn sefydlog ar eich traed a rhoi hwb i'ch hwyliau. Mae'r dosbarthiadau hyn yn hwyl, yn gymdeithasol ac maent yn addas ar gyfer pob gallu.
Gentle Circuits - Dydd Mercher 11am-12pm
Chair Based Strength & Tone - Dydd Gwener -10am-11am
Spotlight Dance Fitness - Dydd Gwener 11am-12pm
Cynhelir pob dosbarth yn Neuadd y Gweithwyr Blaenafon.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
sophie.johnson@blaenavontowncouncil.co.uk 07877 849143



## Clwb All Sorts Cwmbrân

Caiff Clwb All Sorts ei redeg gan Brenda Flewelling mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Cwmbrân, mae gan Brenda dîm hyfryd o wirfoddolwyr cefnogol sydd yn croesawu pobl bob wythnos sydd eisiau mwynhau ychydig oriau allan o'r tŷ, gan gymdeithasu ag eraill wrth roi cynnig ar rywbeth newydd.
Mae All Sorts yn cynnig amrywiaeth o wahanol opsiynau crefft bob wythnos i chi roi cynnig arnynt, mae popeth yn cael ei ddarparu ac nid oes angen archebu lle. Os nad yw celf a chrefft at eich dant, mae gennym hefyd ystod eang o gemau bwrdd i'w mwynhau neu yn syml, dewch draw am baned a sgwrs, mae croeso i bawb.
Dydd Llun 11am-2pm Yn Anecs Cyngor Cymuned Cwmbrân
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Cwmbrancc@cwmbran.gov.uk

## Hospital 2 Home Discharge Service comes to County Hospital

age connects torfaen.
Charity No: 1172466
Widdershins Centre, East Avenue, Sebastopol, Pontypool, Torfaen NP4 5AB
www.ageconnectstorfaen.org

**Hospital 2 Home Discharge Service**

Age Connects Torfaen provides a hospital discharge service to the borough of Torfaen for residents aged 50 or over who may need some support to return home safely following their visit to
• County Hospital
We can accompany people home following discharge from a hospital ward to help resettle them and make sure they are safe, warm and secure at home



Support is provided for up to 6 weeks.

To access this service email:
widdershins@ageconnectstorfaen.org
☎ 01495 769264

## Forget Me Not Friday

Mae'r grŵp cymorth hyfryd hwn yn darparu lle a gweithgareddau croesawgar i bobl sy'n byw gyda dementia, sy'n colli eu cof a'u gofalwyr. Mae'r grŵp Forget Me Not Friday yn cael ei redeg gan Gysylltwyr Cymunedol Cyngor Torfaen ac maent yn cyfarfod bob dydd Gwener yn Llyfrgell Cwmbrân, 1pm tan 3pm.
I gael rhagor o wybodaeth am y grŵp cymorth dementia Forget Me Not Friday, cysylltwch â:
Melanie Smith yn
cwmbran.library@torfaen.gov.uk neu ffoniwch 01633 647676



## Optometryddion i chwarae rôl wrth helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu

Mae Helpa Fi i Stopio yn wasanaeth arbenigol am ddim yn y GIG sy'n darparu cefnogaeth i ysmygwyr ledled Gwent sydd eisiau help i roi'r gorau i ysmygu.

Mae ymchwil wedi dangos bod pobl hyd at 300% yn fwy tebygol o roi'r gorau i smygu gyda chefnogaeth gan Helpa fi i Stopio na phe byddent yn ceisio gwneud hyn ar eu pen eu hunain.

Mae Tîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn partneru gydag Optegyddion ledled Gwent er mwyn helpu i gyflwyno'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio i'n poblogaeth leol.

Dywedodd Daniel Clayton, Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, "Gall ysmygu arwain at golli golwg. Mae astudiaethau yn dangos bod ysmygu'n cynyddu'r risg o ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran, cataractau, glawcoma a retinopathi diabetig a Syndrom Llygaid Sych. Fel prif ddarparwr gofal llygaid claf, mae Optometryddion yn cael y cyfle i bwysleisio'r neges hon am ysmygu ac iechyd y llygaid, ac annog pobl i roi'r gorau iddi.



Felly, rwy'n gyffrous iawn fy mod yn cael y cyfle i weithio ar y cyd gydag Optegyddion ledled Gwent i hyrwyddo'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio".

I gael gwybod mwy am y weminar, cysylltwch â Stephanie Campbell,Optometrydd Cymunedol Arweiniol stephanie.campbell@wales.nhs.uk, neu Daniel Clayton, Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd daniel.clayton2@wales.nhs.uk




## Cydweithrediaethau Proffesiynol Adolygiad a Dathlu

Cynhaliwyd digwyddiad yn Ysbyty Ystrad Fawr ar y 25ain Ebrill i ddathlu blwyddyn o waith caled yn datblygu'r Cydweithfeydd Nyrsio Proffesiynol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Mentrau Cydweithredu Proffesiynol (PCs) yn rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol sy'n rhannu arbenigedd, sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio eu sgiliau unigryw i asesu anghenion y boblogaeth yn yr ardal y maent yn gweithio ynddi. Bydd y mentrau cydweithredol yn casglu gwybodaeth a phrofiad gweithwyr proffesiynol lleol er mwyn mapio darpariaeth gwasanaeth, nodi bylchau a datblygu yn erbyn anghenion. Maent yn llywio penderfyniadau ac yn cynnig atebion.

Daeth torf dda i'r digwyddiad a agorwyd gan Kelly Downes, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Yn ystod y digwyddiad cyflwynodd Arweinwyr Cydweithredol Nyrsio o bob un o'r pum Bwrdeistref adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf ac edrychwyd ymlaen at y flwyddyn i ddod. Gwnaeth Chiquita Cusens, Arweinydd Nyrsio Cenedlaethol Gofal Sylfaenol a Chymunedol, gyflwyniad ar y farn genedlaethol; amlinellodd Kelly Downes farn y Bwrdd Iechyd, a thrafododd Sue Thomas y cyd-destun lleol.

Dywedodd Kelly Downes, "Ein gweledigaeth yw sicrhau bod gennym lais cydweithredol wrth y bwrdd er mwyn ein galluogi i lywio'r agenda ehangach ar yr hyn sy'n iawn i'n cleifion, fel y gallwn ddarparu gofal yn seiliedig ar le... mae heddiw yn ymwneud â'n taith hyd yn hyn, lle rydym ni a'r camau nesaf. Mae'n ymwneud â ni'r nyrsys a'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi ein cymunedau".

# Cyfathrebu ac Ymgysylltu NCN




## Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Y Byrddau Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (ISPBs)

Byrddau Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (ISPBs) yw'r mecanweithiau y mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r Fwrdeistref yn cydweithio i adolygu a chynllunio er mwyn gweithredu a chyflawni er mwyn diwallu angen y boblogaeth leol. Ar y byrddau mae cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol, Trydydd Sector, arbenigwyr iechyd y cyhoedd a chynllunwyr. Mae 5 ISPB ar draws ardal BIPAB - un ym mhob Bwrdeistref.

Fel rhan o gerrig milltir yr NCN, roedd yn ofynnol i ISPBs greu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda'r nod o wneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned leol ar draws ardal yr NCN.

Mae strategaeth newydd wedi'i hysgrifennu a'i chymeradwyo gan Gadeirydd pob ISPB. Bydd yn gwasanaethu fel canllaw cynhwysfawr ar gyfer yr holl weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu.




## Tynnu sylw at y cysylltiad rhwng Golwg Wael a Chwympiadau

Cynhyrchwyd fideo newydd yn tynnu sylw at sut y gallai golwg wael, neu nam ar y golwg, fod yn ffactor sy'n cyfrannu at gwympiadau.

Mae'r ffilm fer, sy'n cynnwys Catherine McNamara, Optometrydd ac Ymgynghorydd Optometrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn rhoi sylw i bwysigrwydd mesurau rhagweithiol megis profion llygaid rheolaidd wrth nodi a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â'r golwg yn gynnar.

Nod y fideo yw grymuso'r cyhoedd gyda gwybodaeth am gynnal iechyd golwg gorau posibl er mwyn liniaru'r risg o gwympiadau a gwella lles cyffredinol. Mae hefyd yn amlinellu'r gwasanaeth golwg isel a sut y gall arbenigwyr golwg isel gyfeirio at wasanaethau eraill a fydd yn helpu i gadw pobl yn symudol ac yn annibynnol yn eu cartref eu hunain.

Gallwch wylio'r fideo yma: #morethanglasses




## Codi Proffil yr NCNs

Mae proffil rhaglen yr NCN wedi cael ei godi drwy safle NCN Pulse, sy'n gwasanaethu fel porth ar gyfer rhannu mentrau lleol ac adnoddau NCN. Mae'r safle wedi ennill momentwm. Yn ystod y 90 diwrnod diwethaf (hyd at 30/04/24), mae'r safle wedi derbyn 7,506 o ymweliadau. Rhennir newyddion NCN hefyd trwy gylchlythyr Pulse misol, wedi'i ddosbarthu ar draws timau Gofal Sylfaenol a NCN/timau ardal, yn ogystal â thrwy'r cylchlythyr PDF chwarterol hwn a ledaenir i restr o 2,000 o randdeiliaid y Bwrdd Iechyd, trwy wefan BIPAB, i'r holl dimau cydweithredol proffesiynol ac ar draws timau Gofal Sylfaenol.